



GWYBODAETH I GLEIFION

A fydd y GIG yn ariannu fy nhriniaeth i?

**Sut mae Bwrdd Iechyd Lleol Cwm
Taf
yn ystyried Ceisiadau Unigol gan
Gleifion am Gyllid**

*Cyhoeddwyd y daflen hon gan Fwrdd Iechyd
Lleol Cwm Taf ym mis Medi 2011*

A fydd y GIG yn ariannu fy nhriniaeth i?

Bob blwyddyn mae Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn derbyn arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i dalu am ofal iechyd ar gyfer pawb sy'n byw yn ardal Cwm Taf (Y Rhondda, Taf-Elái, Cwm Cynon a Merthyr Tudful) ac sydd â hawl i ofal gan y GIG. Ein tasg ni yw sicrhau'r gwerth gorau am y cyllid hwn trwy ei wario'n ddoeth ar eich rhan chi. Mae'r galw am ofal iechyd yn cynyddu. Mae triniaethau newydd, a rhai drud weithiau, yn ymddangos bron bob wythnos. Ond gan mai swm cyfyngedig o arian sydd gennym i'w wario, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn ar adegau.

Ein blaenoriaeth yw talu am y triniaethau hynny sydd yn glinigol effeithiol, yn dangos yn amlwg eu bod yn gwella iechyd pobl, ac yn cynnig gwerth da am yr arian.

O ganlyniad mae yna rai triniaethau nad ydym yn arfer eu darparu fel rheol, ac mae'r rhain yn perthyn i 2 brif categori. Dyma nhw:

- triniaethau sydd yn newydd, yn wahanol, yn dal i gael eu datblygu neu heb eu profi, ac nad ydynt ar gael fel arfer i gleifion yng Nghwm Taf (er enghraifft, meddyginiaeth nad yw wedi cael ei chymeradwyo i gael ei defnyddio gan y GIG yng Nghymru)
- triniaethau a ddarperir gennym mewn amgylchiadau clinigol tra phenodol, nad yw pob claf â'r anhwylder dan sylw yn bodloni'r meini prawf penodol (er enghraifft, cais am driniaeth ar gyfer gwythiennau gleision).

Mae'r daflen hon yn esbonio sut gall eich Meddyg Teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty ofyn inni, ar eich rhan chi, ariannu triniaeth na fyddem fel rheol yn ei darparu ar eich cyfer. Yr enw am hyn yw **Cais Unigol gan Glaf am Gyllid neu 'IPFR'** ac mae GIG Cymru'n cadw at bolisi diamwys wrth ddelio â cheisiadau o'r fath. Cewch chi islwytho'r polisi o www.cwmtafwb.wales.nhs.uk.

Sut i wneud IPFR

Os carech chi ofyn am driniaeth benodol na fyddem fel arfer yn ei darparu ar eich cyfer, dylech chi drafod hyn gyda'ch Meddyg Teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty. Fel rheol byddant yn llenwi'r ffurflen gais ar eich rhan a'i chyflwyno inni, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol.

Wrth i'ch Meddyg Teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty wneud y cais hwn, bydd yn rhaid iddynt ddangos pam maent o'r farn bod **amgylchiadau clinigol eithriadol** yn berthnasol yn eich achos chi. Gall hyn fod yn anodd i'w ddiffinio yn achos rhai cleifion – rydym yn ymwybodol o hyn – ac rydym felly yn cadw at bolisi'r GIG sy'n gosod yn glir iawn sut rydym yn asesu hyn a sut mae ein penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Fe anfonwn ni ateb ichi, a hynny fel arfer o fewn 10 niwrnod gweithio ar ôl derbyn eich cais, i adael ichi wybod beth fydd yn digwydd nesaf. Efallai y bydd angen inni ofyn i'ch meddyg weithiau am ragor o wybodaeth, a byddwn yn gofyn iddo/iddi ddarparu hyn cyn gynted â phosibl.

Sut bydd penderfyniad yn cael ei wneud?

Os yw'r cais yn un priodol ac os yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi cael ei darparu, bydd eich cais yn cael ei ystyried gan banel arbennig, sef y 'Panel IPFR'. Mae'r Panel IPFR yn cwrdd bob mis. Mae'n cynnwys cymysgedd o bobl â chymwysterau clinigol yn ogystal ag aelod llewyg nad yw'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Panel IPFR yn ystyried pob cais ar ei ben ei hun, ac mae pob gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Nid yw'n cael gweld unrhyw wybodaeth y gellir ei phriodoli i glaf unigol.

Mae pob aelod o'r Panel yn meddu ar y wybodaeth arbenigol briodol i asesu'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan eich meddyg ac i sicrhau eu bod yn dilyn proses sy'n deg ac yn gyfiawn.

Maent yn dilyn rhestr wirio glir wrth wneud eu penderfyniadau, ac nid ydynt yn ystyried amgylchiadau cymdeithasol y claf wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo cais neu beidio.

Rhoi gwybod ichi am y penderfyniad

Mae meddygon o'r farn mai rhwng y claf a'i feddyg ei hun y dylid trafod penderfyniadau'r Panel yn uniongyrchol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei esbonio ichi, fel y gallwch chi drafod ar unwaith yr hyn y mae hyn yn ei olygu yng nghyswllt y camau nesaf yn eich gofal.

Fel rheol fe fydd y meddyg a wnaeth y cais ar eich rhan yn cael ei hysbysu am

benderfyniad y Panel o fewn 5 niwrnod gweithio ar ôl y cyfarfod, ac mae'n gwybod bod rhaid cysylltu â chi i roi gwybod ichi amdano.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r Panel yn cytuno i ariannu'r cais?

Os carech chi a'ch meddyg i benderfyniad y Panel gael ei arolygu, dylech chi ein hysbysu o fewn 25 niwrnod gweithio ar ôl y dyddiad y derbynioch chi'r llythyr lle rhoddwyd y penderfyniad. Mae gan eich meddyg gopi o'r ffurflen geisio arolwg, y bydd yn rhaid ichi ei llenwi gyda'ch gilydd a'i hanfon inni.

Dim ond dan yr amgylchiadau canlynol ('achosion' neu 'seiliau') y gellir gofyn am arolwg:

- eich bod o'r farn nad yw'r Panel wedi dilyn y broses gytunedig a'i fod o ganlyniad wedi gweithredu'n annheg
- eich bod o'r farn bod y Panel wedi ystyried ffactorau amherthnasol neu nad yw wedi cymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau perthnasol a oedd ar gael iddo, a'i fod o'r herwydd wedi gweithredu'n afresymegol
- eich bod o'r farn bod y Panel wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau a thrwy hynny weithredu'n anghyfreithlon.

Er mwyn sicrhau bod proses deg yn cael ei dilyn, bydd pob arolwg yn cael ei glywed gan Banel Arolygu gwahanol.

Os yw'r Panel Arolygu'n penderfynu bod seiliau'r arolwg wedi cael eu cadarnhau, fe

anfonir eich cais yn ôl at y Panel IPFR i gael ei ail-ystyried.

Nodwch na fydd y Panel Arolygu'n ystyried tystiolaeth newydd. Os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg, dylai eich meddyg gyflwyno cais newydd am IPFR.

Sut i wneud cwyn

Os ydych yn dal yn anfodlon yn sgil penderfyniad y Panel Arolygu, mae gennych yr hawl i gyfeirio'r mater at Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae gwybodaeth ychwanegol am sut i wneud hyn ar gael ar ei wefan www.ombudsman-wales.org.uk.

Sut i gysylltu â'r Cydlynnydd IPFR

I gael gwybodaeth gyffredinol am wneud cais IPFR, dylech chi gysylltu â'r:

Cydlynnydd IPFR
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
Tŷ Ynysmeurig
Parc Navigation
Abercynon
CF45 4SN

Ffôn: 01443 744821